# Nodyn Briffio

**NRW B B 72.16**

## Adroddiad y Prif Weithredwr

### 1. Cyfarfodydd ac Ymweliadau

Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd, rwyf wedi mynychu'r cyfarfodydd a chynnal yr ymweliadau canlynol (nad oeddent wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cadeirydd):

**Iechyd**

Rydw i wedi cyfarfod â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus ar gyfer Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, Prif Weithredwr GIG Cymru, a Phrif Weithredwr Chwaraeon Cymru, ac wedi mynychu Cinio Cynhadledd Iechyd a Chynaliadwyedd yng Nghymru. Rydw i hefyd wedi cyfarfod â Dr Richard Lewis, sy'n datblygu gwaith ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymwneud â 'rhagnodi cymdeithasol', a gwnaethom drafod y meysydd a'r asedau lle gallai Cyfoeth Naturiol Cymru helpu gyda rhagnodi cymdeithasol a chael pobl yn weithgar. Fel rhan o'r grŵp Cymru Well Wales, byddaf hefyd yn cyfarfod â Carl Sargeant, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant, i drafod mentrau sy'n targedu teuluoedd sydd â phlant ifanc.

**Fforwm Cymru Gydnerth**

Mynychais Fforwm Cymru Gydnerth, oedd yn cael ei gadeirio gan y Prif Weinidog, lle cafwyd trafodaeth am fod yn barod ar gyfer y gaeaf.

**Network Rail**

Mae CNC wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Network Rail.Yn draddodiadol, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith rhwng CNC a Network Rail wedi ymwneud â rheoli perygl llifogydd, ond mae llawer o gyfleoedd i wneud mwy o waith gyda'i gilydd, megis cynnal asedau a bioamrywiaeth.

**Mwyngloddiau Metel**

Gwnes gyfarfod â Phrif Weithredwr yr Awdurdod Glo ac ymweld â mwyngloddiau segur yng Nghwm Rheidol, sy'n creu llygredd mwynglawdd metel. Mae CNC wedi cael £600k gan Lywodraeth Cymru i ymchwilio ymhellach i'r posibilrwydd o sefydlu prosiectau ar gyfer lleihau llygredd gan fwyngloddiau metel.

**Cyfarfod '5 Prif Weithredwr'**

Gwnaeth pum prif weithredwr y sefydliadau 'asiantaethau amgylcheddol' (Asiantaeth yr Amgylchedd, Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban, Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon, Asiantaeth Diogelu Amgylchedd Iwerddon a ninnau) gyfarfod ym Melfast i drafod, ymysg materion eraill, goblygiadau Brexit. Rydym wedi cytuno i

gynnal perthynas waith agos ac i rannu gwybodaeth ynglŷn â'r goblygiadau i'r amgylchedd.

**Prifysgolion**
Ynghyd â Mike Evans a Kathryn Monk, gwnes gyfarfod ag Is-ganghellor ac uwch staff Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, a chawsom daith o amgylch Campws Llandaf. Rydym wedi nodi sawl maes lle gellid cydweithio o bosibl, gan gynnwys dysgu a datblygu, hamdden awyr agored, a manteision iechyd yr amgylchedd.

**Y môr**
Byddaf yn bresennol yn Narlith Goffa Dennis Crisp ar Wyddorau'r Môr ym Mhrifysgol Bangor, a gyflwynir gan yr Athro Donal T. Manahan o Brifysgol Southern California.

**Cwm Elan**
Byddaf yn cyfarfod cadeirydd a deiliaid swyddi prosiect £3.3 miliwn Elan Links: Pobl, Natur a Dŵr, a ariennir yn rhannol gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

**Cynhadledd Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad**
Byddaf yn bresennol yng nghynhadledd y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad ym Mae Caerdydd.

**Cenedlaethau’r Dyfodol**
Byddaf yn bresennol yng nghyd-gynhadledd Swyddfa Archwilio Cymru / Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymwneud â 'Llywio atebolrwydd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol'.

## 2. Queen’s Commonwealth Canopy Initiative

Mynychodd y Cadeirydd a mi lansiad y 'Queen’s Commonwealth Canopy Initiative' (QCC) ym Mhalas Buckingham. Rhwydwaith o brosiectau cadwraeth coedwigoedd yw’r QCC, ac roedd nifer o gynrychiolwyr y Gymanwlad yn bresennol. Bydd CNC yn cyflwyno Coed Gwent, Sir Fynwy, fel ymgeisydd ar gyfer y QCC.

## 3. Tyfu

Roeddwn yn falch o lansio dwy ran olaf rhaglen Arweinyddiaeth Tyfu ar gyfer arweinwyr timau rheoli. Mae'r adborth yn sgil y rhaglen wedi bod yn hynod gadarnhaol, a bydd y modiwlau'n parhau yn 2017.

**Emyr Roberts**
Tachwedd 2016